# Sgiliau Astudio

## Nod

Ein nod yw cefnogi myfyrwyr drwy gydol y broses o symud i brifysgol, a chyflawni cwrs yn llwyddiannus ynddi, drwy godi ymwybyddiaeth o ddisgwyliadau academaidd a thrwy helpu myfyrwyr i ddatblygu'r strategaethau a'r prosesau a fydd yn eu galluogi i gael y budd mwyaf o'u hastudiaethau. Gan weithio gyda staff academaidd o Ysgolion y Brifysgol, mae'r Ganolfan yn cefnogi sefydlu datblygu dysgu'n gadarn o fewn y cwricwlwm, ac mae'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

## Amcanion

- Darparu adnoddau cyfredol a chysylltiadau i ddarparwyr gwybodaeth eraill ar faterion yn ymwneud ag astudio academaidd mewn Addysg Uwch ym Mhrydain.

- Cynnig digwyddiadau dysgu traws ddisgyblaethol i grwpiau gyda'r bwriad o wella dealltwriaeth myfyrwyr o ddisgwyliadau academaidd a dulliau astudio generig.

- Datblygu digwyddiadau dysgu i grwpiau'n ymwneud â disgyblaethau penodol (seminarau, gweithdai neu ddarlithoedd), mewn cydweithrediad ag Ysgolion academaidd, er mwyn gwella dealltwriaeth myfyrwyr o'r disgwyliadau a'r dulliau gweithredu yn eu disgyblaeth eu hunain.

- Rhoi cefnogaeth academaidd un-i-un wedi'i thargedu at anghenion myfyrwyr unigol.

- Datblygu cyfleoedd dysgu gyda chymorth cyfoedion i gydnabod y dylanwad y gall myfyrwyr ei chael ar y ffordd y mae eu cyfoedion yn dysgu, fel cyfrwng i wella cyflogadwyedd myfyrwyr.

- Cefnogi staff academaidd i ddatblygu sgiliau astudio / cydrannau ymarfer academaidd o fewn rhaglenni gradd.

- Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr a staff i sicrhau bod ein gwasanaeth yn cyflawni anghenion datblygu dysgu corff eang ac amrywiol o fyfyrwyr.

Julian Brasington
Rheolwr Canolfan Sgiliau Astudio

Mawrth 2013